PARTNERIAETH RHEILFFYRDD Y
CAMBRIAN
RAILWAYS PARTNERSHIP

# Adroddiad SDRh Chwefror 2017
# i Bwyllgor Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian.

**Cyfarfod gyda Paul Maynard AS - Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yr Adran Drafnidiaeth (Gweinidog Rheilffyrdd, AdTr).**

Buom yn ffodus i gael cynnig cyfarfod gyda Paul Maynard AS gyda'r bwriad o ofyn am ei gadarnhad i'r ymdrechion yr ydym yn eu cymryd i hyrwyddo Cynllun y Waled Oren yn genedlaethol. Mynychais y cyfarfod yma ynghyd â Ben Davies, Phil Caldwell a David Crunkhorn TAC, ac fe gawsom gyfarfod teg gyda Mr Maynard. Rhoddodd ei gadarnhad i'r cynllun ynghyd â chyngor ar sut i fwrw ymlaen ar y cyd gyda'i swyddogion. Mae hon yn enghraifft ardderchog o sut y gall prosiect lleol gan bartneriaeth rheilffordd gymunedol wneud marc yn genedlaethol a byddwn yn bwrw ymlaen gyda'i gyngor gan weithio mewn partneriaeth gyda TAC a Grŵp Arriva UK.

**Masnachfraint Rheilffyrdd a chefnogaeth Llywodraeth Cymru**

Rwyf wedi mynychu amryw o gyfarfodydd ynghyd â chydweithwyr o'r bedair Bartneriaeth Rheilffyrdd Cymunedol arall yng Nghymru a'r Gororau, ble trafodwyd dyfodol y Partneriaethau a sut y gallent ffitio gyda'r fasnachfraint nesaf. Eleni, rydym wedi bod yn ffodus i dderbyn arian grant ar gyfer prosiectau refeniw a chyfalaf gan LlC ac wrth gwrs rydym yn awyddus i weithio gyda LlC i sicrhau rhagor o arian i'r blynyddoedd ariannol a ddaw.

Cawsom gadarnhad llafar ein bod wedi llwyddo yn ein ceisiadau am grant cyfalaf i gael llochesfannau i orsafoedd y Trallwng, Cyffordd Dyfi a Llanaber.

**Cyhoeddiadau**

Rydym ar fin bwrw ati i gyhoeddi ein llyfryn newydd ar deithiau cerdded byr yn ardaloedd Rheilffyrdd y Cambrian. Bydd y llyfryn hwn yn cymryd lle taflenni Crwydrau'r Cambrian a brofodd i fod yn arbennig o boblogaidd ychydig o flynyddoedd yn ôl. Rydym wedi sicrhau

cefnogaeth Llwybr Arfordirol Cymru (drwy Gyfoeth Naturiol Cymru) ac rydym yn ceisio caniatâd i ddefnyddio arwyddluniau Llywodraeth Cymru/Croeso Cymru arno hefyd.

**Arolygon**

Mae Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian yn falch o gael gweithio gyda Phwyllgor Cyswllt Rheilffordd Amwythig i Aberystwyth ac rydym yn comisiynu arolygon i'w cynnal yng ngwanwyn 2017 fel rhan o'n grant gan Lywodraeth Cymru, i gael ei ddarparu ar ein rhan gan y pwyllgor a Grŵp Gweithredu Rheilffordd Canolbarth Cymru. Mae'r arolygon yn dilyn llwyddiant arolygon 2013 a 2015 a olygodd well gwasanaethau ar Leiniau'r Cambrian.

**Ymgyrch Hyrwyddo 2017**

Rydym eisoes wedi cynhyrchu ffilm hyrwyddo fer ac yn ceisio arian ychwanegol i ganiatáu i ni baratoi gwefan newydd sbon sy'n canolbwyntio ar ymwelwyr gyda ffilmiau byr eraill y bwriedir eu rhyddhau yn Chwefror/Mawrth tan ddechrau'r haf eleni. Bydd yr ymgyrch wedi ei seilio yn uniongyrchol ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

**Storïau a Llyfrau ar y Cambrian**

Mae gwasanaeth llyfrgelloedd Cyngor Ceredigion a'r Cyngor Llyfrau Cymraeg wedi cysylltu â ni i weithio ar brosiectau pellach i gysylltu storïau a llyfrau gyda Leiniau'r Cambrian. Rydym ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad o'r manylion a'r arian sydd ar gael i dreialu beth fedrai ddatblygu i fod yn brosiect o Fôn i Fynwy.

**Cynllun Busnes 2017-2018**

Mae ein cynllun busnes am y flwyddyn ariannol nesaf yn cael ei baratoi a bydd yn amlinellu ein prosiectau am y 12 mis nesaf. Cyflwynir hwn yng nghyfarfod nesaf Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian i'w gymeradwyo gan y rhan-ddeiliaid ariannu a bwriedir cynnal hwn ym mis Mawrth.

**Rhydian Mason**
**Swyddog Datblygu Rheilffyrdd**
**Partneriaeth Rheilffyrdd y Cambrian**
**rhydian.mason2@ceredigion.gov.uk**

**07/02/2017**